

Lefel 3 Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Prawf cadarnhau Papur 4

Hyd (ar y mwyaf): 60 munud

Mae'r prawf cadarnhau hwn yn cynnwys 30 cwestiwn amlddewis

Asesiad Enghreifftiol


Cynhyrchwyd ar y cyd gan y pedwar corff dyfarnu Sgiliau Hanfodol:

Agored Cymru
City & Guilds
Pearson
CBAC



Mae Cwestiynau 1 i 4 yn sôn am boblogaeth dinasoedd.


1 Mae'r graff isod yn dangos y newid a fu ym mhoblogaeth rhai dinasoedd yn y DU.



Beth oedd y gwahaniaeth rhwng poblogaeth Birmingham a phoblogaeth Lerpwl yn 1900?

A	0.21 miliwn	
B	0.22 miliwn	
C	0.24 miliwn	
D	0.26 miliwn	

2 Mae'r graff isod yn dangos y newid a fu ym mhoblogaeth rhai dinasoedd yn y DU.



Pa un o'r datganiadau hyn sy'n gywir?

A	Yn 1991 roedd poblogaeth Birmingham dair gwaith yn fwy na phoblogaeth Manceinion	
B	Rhwng 1900 a 1991 roedd poblogaeth Sheffield wedi newid llai nag 20 000	
C	Roedd poblogaeth Glasgow 50% yn fwy na phoblogaeth Lerpwl yn 1991	
D	Roedd y twf ym mhoblogaeth Leeds bedair gwaith yn fwy na'r twf ym mhoblogaeth Sheffield rhwng 1990 a 1991	

3 Yn 1901 roedd poblogaeth Abertawe yn 9.45×10^4

Yn 2015 roedd poblogaeth y ddinas yn 2.42×10^5

Faint o dwf a fu ym mhoblogaeth Abertawe rhwng 1901 a 2015?

A	147 500	
B	70 300	
C	14 750	
D	7 030	

4 3.1 miliwn yw poblogaeth Cymru.

Mae disgwyl i'r boblogaeth dyfu 0.3% bob blwyddyn.

Pa un o'r cyfrifiadau isod sy'n rhoi'r ateb cywir o ran rhagweld beth fydd maint y boblogaeth ar ôl 3 blynedd?

A	3.1×1.003^3	
B	$3.1 \times 1.003 \times 3$	
C	3.1×1.03^3	
D	$3.1 \times 1.03 \times 3$	

Mae Cwestiynau 5 i 7 yn sôn am gae sy'n perthyn i ffermwr.

5 Mae gan ffermwr gae gydag arwynebedd o 4 hecтар.

Mae'n gwerthu'r cae am £8000 yr erw.

1 hecтар = 2.47 erw

Beth fydd pris gwerthu'r cae i gyd gyda'i gilydd?

A	£4, 940	
B	£12, 955	
C	£51, 760	
D	£79, 040	

6 Mae'r hafaliad isod yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo uchafswm y gwartheg y dylid eu rhoi i bori mewn cae.

$$a = 0.4c - 0.01c^2$$

Lle mai **c** yw nifer y gwartheg sy'n pori
a yw arwynebedd y cae mewn hecтарau.

Beth yw lleiafswm yr arwynebedd sydd ei angen mewn cae i roi digon o le i 6 buwch bori?

A	2.04 hecтар	
B	2.28 hecтар	
C	2.364 hecтар	
D	2.76 hecтар	


7 Mae cae yn ddigon mawr i gynnal uchafswm o naill ai 15 buwch sy'n pori neu 25 ceffyl.

Beth yw'r nifer mwyaf o geffylau y gellir eu cadw mewn cae sy'n gallu cynnal 25 buwch yn pori?

A	35	
B	40	
C	41	
D	42	

Mae Cwestiynau 8 i 10 yn sôn am gyngerdd.

8 Dyma gynllun neuadd gyngerdd. Mae llwyfan siâp triongl ynddo.



Beth yw arwynebedd y lle sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y gynulleidfa?

A	119 m ²	
B	121.5 m ²	
C	131.5 m ²	
D	139 m ²	

9 Mewn lleoliad gwahanol, mae'r lle sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y gynulleidfa yn mesur 240 m^2 .

Dylid cael uchafswm o 1.5 o bobl fesul metr sgwâr.

Mae'n costio £1150 i drefnu cyngerdd

Mae'r tocynnau yn costio £9 yr un.

Mae'r nifer uchaf a ganiateir o bobl yn prynu tocynnau.

Faint o arian sydd yn weddill ar ôl talu am y gost o drefnu'r cyngerdd?

A	£2190	
B	£2090	
C	£310	
D	£290	

10 Mae trefnwyr cyngerdd yn mesur pa mor gyflym y mae pobl yn gallu gadael yr adeilad.


Yn un digwyddiad, mae 150 o bobl yn gadael mewn 240 eiliad.

Beth yw'r gyfradd gadael fesul munud ar gyfer y digwyddiad hwn ar gyfartaledd?

A	37.5 o bobl y funud	
B	62.5 o bobl y funud	
C	90 o bobl y funud	
D	96 o bobl y funud	

Mae Cwestiynau 11 i 13 yn sôn am brawf.


- 11 Mae'r graff hwn yn dangos beth oedd sgôr 60 o fyfyrwyr mewn prawf. Y marc uchaf ar gyfer y prawf oedd 40.



Pa un o'r canlynol sydd agosaf at y sgôr canolrifol?

A	20	
B	21	
C	23	
D	24	

- 12 Mae'r graff hwn yn dangos beth oedd sgôr 60 o fyfyrwyr mewn prawf. Y marc uchaf ar gyfer y prawf oedd 40.




Pa un o'r rhain sydd agosaf at amrediad rhyngchwartel y sgorau?

A	6	
B	10	
C	20	
D	30	

- 13 Mae'r graff hwn yn dangos beth oedd sgôr 60 o fyfyrwyr mewn prawf. Y marc uchaf ar gyfer y prawf oedd 40.

Sgorau Prawf



Roedd pob myfyriwr oedd yn sgorio dros 25 marc yn llwyddo yn y prawf.


Pa ganran o'r myfyrwyr oedd wedi llwyddo yn y prawf, i'r canran agosaf?

A	25%	
B	38%	
C	58%	
D	62%	

Mae Cwestiynau 14 i 15 yn sôn am lamp stryd.

14 Mae rhywun yn edrych ar belyn lamp o bell ac mae rhai onglau yn cael eu mesur. Mae'r diagram hwn yn dangos yr onglau.

Nid yw'r diagram wedi'i luniadu'n fanwl gywir




Beth yw maint ongl X?

A	59 gradd	
B	41 gradd	
C	31 gradd	
D	21 gradd	

- 15 Mae lamp stryd arall yn cael ei gosod ar adeilad.
Mae troed ysgol yn cael ei gosod 0.75m o waelod yr adeilad.

Mae'r ysgol yn 3m o hyd



Pa un o'r cyfrifiadau isod sy'n dangos ar ba uchder y mae'r ysgol yn cyffwrdd y wal?

A	$\sqrt{3^2 + 0.75^2}$	
B	$\sqrt{3 - 0.75}$	
C	$\sqrt{3 + 0.75}$	
D	$\sqrt{3^2 - 0.75^2}$	

Mae Cwestiynau 16 i 18 yn sôn am systemau awyru.

16 Dyma'r fformiwla sy'n cael ei defnyddio i ganfod maint ffan awyru ar gyfer ystafell.

$$F = \frac{VA}{60}$$

F = Maint y ffan (m^3 /y funud)

V = Cyfaint yr ystafell (m^3)

A = nifer o weithiau mae'r aer yn newid bob awr

Mae ffan $7m^3$ yn cael ei defnyddio mewn ystafell lle mae arwynebedd y llawr yn mesur $25m^2$ ac sydd ag uchder o 3 metr.

Faint o weithiau mae'r aer yn newid bob awr?

A	1.25	
B	5.2	
C	5.6	
D	8.75	

17 Mae ffan sy'n troi ar 3m^3 y funud yn newid yr aer mewn ystafell 5 gwaith yr awr.

$$F = \frac{VA}{60}$$

F = Maint y ffan ($\text{m}^3/\text{y funud}$)

V = Cyfaint yr ystafell (m^3)

A = nifer o weithiau mae'r aer yn newid bob awr

Beth yw cyfaint mwyaf yr ystafell lle gellir gosod y ffan?

A	11.4 m^3	
B	12.6 m^3	
C	30.0 m^3	
D	36.0 m^3	

18 Mae ffan awyru mewn cegin brysur.
700 troedfedd giwbig y funud (ft^3/min) yw cynhwysedd y ffan.

Defnyddiwch y wybodaeth ganlynol:

$$1\text{ m}^3 = 35\text{ ft}^3$$


Beth yw cynhwysedd y ffan mewn metrau ciwbig yr awr (m^3/h)?

A	$2100\text{ m}^3/\text{h}$	
B	$1200\text{ m}^3/\text{h}$	
C	$408\text{ m}^3/\text{h}$	
D	$333\text{ m}^3/\text{h}$	

Mae Cwestiynau 19 i 21 yn sôn am redeg.

19 Mae Andreas a Gareth yn mynd i redeg am 30 munud. Mae'r graff yn dangos pa mor bell yr oeddynt wedi rhedeg dros amser.

Pellter ac Amser Rhedeg




Beth oedd y pellter rhwng y rhedwyr ar ôl chwarter awr?

A	50 metr	
B	250 metr	
C	500 metr	
D	2500 metr	

20 Mae Andreas a Gareth yn mynd i redeg am 30 munud. Mae'r graff yn dangos pa mor bell yr oeddynt wedi rhedeg dros amser.

Pellter ac Amser Rhedeg




Beth oedd cyfartaledd cyflymder Andreas?

A	13.0 km/h	
B	11.4 km/h	
C	9.8 km/h	
D	2.45 km/h	

21 Mae Andreas a Gareth yn mynd i redeg am 30 munud. Mae'r graff yn dangos pa mor bell yr oeddynt wedi rhedeg dros amser.

Pellter ac Amser Rhedeg



Beth oedd cyfartaledd cyflymder Gareth dros y cilometr cyntaf, mewn metrau yr eiliad?

A	0.3 m/s	
B	3.3 m/s	
C	12.0 m/s	
D	16.7 m/s	

Mae Cwestiynau 22 i 24 yn sôn am grwpiau gwaed.

22 Yn y DU, AB positif yw grŵp gwaed 3% o'r boblogaeth.

6.4×10^7 yw poblogaeth y DU.

Faint o bobl yn y DU sydd â'r grŵp gwaed AB positif?

A	1.92×10^6	
B	1.92×10^7	
C	2.13×10^6	
D	2.13×10^7	

23 Yn y DU, B negatif yw grŵp gwaed 1.28 miliwn o bobl.

6.4×10^7 yw poblogaeth y DU.

Pa gyfran o bobl y DU sydd â'r grŵp gwaed B negatif?

A	1 ym mhob 5	
B	1 ym mhob 8	
C	1 ym mhob 50	
D	1 ym mhob 80	

- 24 Nifer y bobl yn y DU sydd â grŵp gwaed A negatiff yw 4.48×10^6
 6.4×10^7 yw poblogaeth y DU.

Pa ganran o'r boblogaeth sydd â grŵp gwaed A negatiff?

A	14.3 %	
B	7.0 %	
C	1.43 %	
D	0.7 %	

Mae Cwestiynau 25 i 26 yn sôn am gost galwadau ffôn.

- 25 Mae galwad ffôn yn dechrau am 09:57:30 ac yn gorffen am 11:23:20

Mae pob munud rhannol yn cael ei dalgrynnu i'r munud cyfan nesaf.

Mae galwadau yn costio 25 ceiniog y funud.

Faint mae'r alwad yn ei gostio?

A	£18.75	
B	£21.25	
C	£21.50	
D	£31.25	

- 26 Mae bil ffôn yn cynnwys ffi fisol benodedig a 25 ceiniog y funud am bob galwad sy'n cael ei gwneud.

Mewn 3 mis, mae 4 awr union o alwadau yn cael eu gwneud. Cyfanswm y bil am y 3 mis yw £105

Beth yw'r ffi benodedig bob mis?

A	£15.00	
B	£20.00	
C	£28.33	
D	£45.00	

Mae Cwestiynau 27 i 30 yn sôn am fodel wrth raddfa.

27 Mae pensaer angen model o floc swyddfeydd newydd. Mae'r adeilad go iawn yn 44 metr o uchder.

Graddfa'r model fydd 1: 200

Beth yw uchder y model mewn mm?

A	22 mm	
B	88 mm	
C	220 mm	
D	880 mm	

Bydd gwely blodau ar y model yn mesur 6 modfedd o hyd.


Graddfa'r model fydd 1: 200

1 modfedd = 2.5 centimetr

Beth fydd hyd y gwely blodau go iawn?

A	24 m	
B	30 m	
C	48 m	
D	300 m	

29 Arwynebedd y maes parcio go iawn yw 900 m^2



Nid yw'r diagram wedi luniadu wrth raddfa


Graddfa'r model fydd 1: 200

Beth yw arwynebedd y maes parcio ar y model?

A	4.5 cm^2	
B	22.5 cm^2	
C	45 cm^2	
D	225 cm^2	

30 Dyma gynllun o lawr yn y bloc swyddfa.

Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa



Beth yw arwynebedd y llawr?

A	236 m ²	
B	262 m ²	
C	284 m ²	
D	460 m ²	